

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 27^{ain} o Fawrth 2019

LLEOLIAD EGLWYS Sant Pedr Penrhos am 7.15pm.

Agenda

Presennol

1. Ymddiheuriadau
2. Cod Ymddygiad
3. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 20-02-2019
4. Materion yn codi o'r cofnodion
5. Adroddiad Ariannol
6. Ceisiadau Nawdd
7. Taliadau angen sylw
 - Cyflog Mis 12 £443.00
 - HMRC Mis 12 £110.80
 - Anghenion Swyddfa Gwynedd Ink £
 - Cwmni Dafydd Hardy Syrfe y Capel £120.00
 - Delwedd
 - Costau'r Clerc Costau Blwyddyn y Clerc £355.25
 - Traelia Cynghorwyr
 - James Cyf Kerbio ag ail-wynebu Llwybrau y Fynwent £16,014.22
 - M Williams

Derbynebion Ad-daliad TAW a Torri Llwybrau £428.00

Cyfanswm

8. Adroddiadau
 - Tarmacio Llwybrau y Fynwent
 - Polisiau
 - Unrhyw ddiweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol - Prydlesi

Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 20ain o Chwefror 2019
Yn Eglwys Sant Pedr Penrhos, am 7.00pm.**

Presennol Cyng L James, D Jones-Morris; D W Jones; C. E. Hughes; J. Pierce a B Jones.

Ymddiheuriadau Pawb yn bresennol

Cadeirwyd gan Cyng L James

Cod Ymddygiad Cwblhaodd Cyng D W Jones ffurflen datgan diddordeb gan iddi fod yn warden yr eglwys/adeliad 'rydym yn ei logi
Cwblhaodd Cyng C E Hughes a Cyng J Pierce ffurflen datgan diddordeb ar gyfer eitem 7

Gan fod dirprwyaeth o'r Cyngor newydd gyfarfod a Geraint Owen a'r tri aelod yn dal yn bresennol cytunwyd i symud yr eitem olaf o'r Agenda Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol i'r cychwyn

- Yn unol a trafodaethau ar y diwrnod agored yn Ysgol y Faenol ac o gyfarfodydd y Cyngor cytunwyd ar fan newidiadau ar leoliad y gegin.
- Nid oedd yn dderbynniol bellach creu 'hatch' a felly cytunwyd i osod drws lle gellir agor ei haner (drws stable) i'r gegin
- Cyngor Gwynedd yn cynnig gosod 'Ffenestri Ffrengig' yn yr ystafell fawr
- Bydd yr Ysgol yn defnyddio adeilad y ganolfan hyd nes bydd adeiladau'r Ysgol wedi eu cwblhau a'r adeiladwyr yn barod i ddymchwel y ganolfan bresennol.
- Dylai fod yn barod erbyn Medi 2020 ond fan bellaf Nadolig 2020
- Cyngor Pentir fydd yn gyfrifol am dalu am ein Nwy
- Cyngor Pentir yn talu i Cyngor Gwynedd am ein Trydan a Dwr
- Cyngor Pentir fydd yn gyfrifol am gadw'r tu mewn yn daclus
- Cyngor Gwynedd fydd yn gyfrifol am gadw trefn ar y tu allan

Cytunwyd fod hi bellach yn amserol i Gadeirydd Cyngor Pentir a Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli gychwyn trafodaethau ar sawl lefel

- Angen cadarnhau statws y Brydles hefo Gamlins
- Angen ystyried opsiynau sut fydd yn Ganolfan yn cael ei rheoli

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 30-01-2019

Cynnigwyd eu bod yn Gofnod cywir gan Cyng D W Jones ag eilwyd gan Cyng D Jones-Morris

Materion yn codi

Amcanbris James Cyf am ail-wynebu llwybrau'r Fynwent wedi dod i law ond wedi ei anfon ers diwedd Ionawr. Yr uchaf o ran swm ond safon y gwaith yn uwch gyda cerbio concrit Dim ymateb wedi ei dderbyn gan y prisiwr isaf parthed cerbio o unrhyw fath.
Cymeradwyo i'r Cyngor Llawn ein bod yn gosod y gawith i James Cyf

Adroddiad Ariannol Dosbarthwyd mantolen ariannol am Mis Chwefror oedd yn dangos mae £35,731.51 ddylai fod yn y cyfrif ddiwedd busnes heddiw Dosbarthwyd mantolen banc yn dangos balans o £36,832.91 yn y banc am fod 4 sic cyfanswm o £1101.40 heb ei chyflwyno.

Dim ad-daliad wedi dod o'r TAW ond ad-daliad NDR £251.71 o Cyngor Gwynedd wedi ei dderbyn

Yn dilyn argymhelliad IBC Ionawr a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn agorwyd Cyfrif banc arall i drosglwyddo yr arbedion iddo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol

Ceisiadau Nawdd

Daeth 5 o geisiadau am arian wedi dod ymlaen

- Cym Hanes Dyffryn Ogwen Cyng C E Hughes yn datgan buddiant am ei fod yn aelod o'r gymdeithas honno a cwblhawyd y ffurflen briodol **Argymell cyfraniad o £300**
- Grwp Arlunio Glasinfryn **Argymell cyfraniad o £300**
- Grwp Yoga Glasinfryn **Argymell cyfraniad o £300**
- Cylch Merched Glasinfryn Cyng J Pierce yn datgan buddiant am ei bod yn aelod o'r gymdeithas honno a cwblhawyd y ffurflen briodol **Argymell cyfraniad o £300**
- Canolfan Glasinfryn **Argymell cyfraniad o £300** tuag at eu cost i baentio yr holl adeilad

Cytunwyd i'r taliadau canlynol

- Cyflog Mis 11 £443.20
- HMRC Mis 11 £110.60
- Eglwys St Pedr Defnydd o'r Eglwys i gyfarfodydd £60.00
- Aelodaeth Unllais Aelodaeth £394.00
- Anghenion Swyddfa Gwynedd Dyddiadur Stamps a Amlenni £38.70

Adroddodd y Clerc hefyd y byddai Taliad PWLP yn mynd allan ar yr 20fed o Fawrth